

Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Tachwedd 4ydd 2025 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of Penbryn Community Council Meeting held on Tuesday, November 4th 2025 at Penbryn Memorial Hall*

Yn bresennol/*Present* – Cyngorwyr/*Councillors* Walwyn Jones, Caerwyn Owen, Gareth Evans, William Anwyl, Melva Phillips, Delfryn Owens, Gwyn James, Jonathan Rees

1 Ymddiheuriadau/Apologies

Cyngorwyr/*Councillors* Teifi Davies, Elen Mathias, Barri Davies

2 Datgelu Buddiannau Personol/Disclosure of Personal Interests

DIM BYD/NO RELEVANCE

3 Materion Personol/Personal Matters

Croesawyd Caerwyn yn ôl yn wresog.

Caerwyn was warmly welcomed back.

4 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 7/10/25

Cynigiwyd eu bod yn gywir gan Delfryn a'i eilio gan Gareth

Proposed to be correct by Delfryn and seconded by Gareth

5 Materion yn Codi/Matters Arising

i) Trefniadau Bancio Ar-Lein/*Internet Banking Procedure*

Nododd y Clerc ei fod wedi ymgynghori gyda **Bank of Scotland** ynghylch hyn oherwydd bod trafferthion wedi codi wrth geisio cofrestru aelodau yn llofnodwyr. Yr oedd bellach wedi derbyn cyfarwyddyd pellach a'i fod yn bwriadu dilyn y trywydd hwn.

*The Clerk stated that he had consulted with **Bank of Scotland** regarding this as he has encountered difficulties when attempting to register members as signatories. He has since received further guidance to follow and achieve the stated aim.*

6 Tai Bach Tresaith/Tresaith Public Toilets

i) Ar sail y drafodaeth gyffredinol a gafwyd yn y cyfarfod blaenorol, aed ati i gael trafodaeth fanylach ynglyn â'n cynlluniau tua'r dyfodol. Wrth geisio datrys y penbleth hwn awgrymodd y Clerc ffordd amgen ymarferol o ddatrys y sefyllfa am y tro. Y cyd-destun a nodwyd oedd y ffaith fod Cyngorau Cymuned Penbryn a Llangrannog yn uno o fewn 18 mis, ac yn sgil hynny ni fyddai ryw lawer o ddilysrwydd i benderfyniadau y ddau gyngor hyn yn ystod y cyfnod hwn. Petasai'r Cyngor hwn yn penderfynu derbyn y cyfrifoldeb o gynnal y tai

bach hyn, dim ond am flwyddyn y byddai'r penderfyniad yn ddilys. Mae'n rhaid rhoi rhwydd hynt i'r darpar gyngor cymuned newydd wneud ei benderfyniad ei hun a dechrau gyda llechen lân. Felly, ar sail y pwynt gweinyddol ac ymarferol hwnnw, penderfynodd y Cyngor wrthod cynnig y Cyngor Sir i gynnal a chadw tai bach Tresaith. Gellir dod i benderfyniad mwy parhaol unwaith y bydd y Cyngor newydd wedi'i ethol ym Mai 2027. Fodd bynnag, fel arwydd o ewyllys da, cytunodd yr aelodau i wneud cyfraniad ariannol pellach i'r Cyngor Sir tuag at gost eu cynnal. Gan ein bod eisioes yn cyfrannu £1200 tuag at gadw'r toiledau'n agored dros fisoedd y gaeaf, cytunwyd i gyfrannu swm cyfatebol tuag at eu cynnal dros yr haf. Nodwyd y gobaith y byddai'r cyfraniad hwn yn lleddfu'r angen am arbedion gan y Cyngor Sir. Rhoddwyd y cynnig gan Walwyn a'i eilio gan Caerwyn.

Based upon last month's discussions the members discussed a far more detailed approach to future plans. In an attempt to resolve the issue the Clerk proposed an alternative way of solving the issue in the short term. The context noted was the fact that Penbryn and Llangrannog Community Councils will be merging within 18 months, and in its wake any major decisions will lack all sense of validity. If this Council were to undertake this responsibility it would only be valid for the following year. It's essential that we allow the prospective new Community Council the freedom to make its own decisions with no administrative baggage from previous councils. Therefore, on this basis, Penbryn Council has rejected the offer to be responsible for the lease and SLA agreement for the toilets at Tresaith. However, as a gesture of goodwill, the members agreed to make a further financial contribution to the County Council towards the maintenance cost. As we are already contributing £1200 towards the cost of maintaining the toilets over the winter period, it was agreed to contribute an equivalent amount for the summer period. It was hoped that this would alleviate the need for savings within the County Council. This was proposed by Walwyn and seconded by Caerwyn.

7 Cyllid/Finance

i)	Balans/Balance	
	Balans Blaenorol/Previous Balance	£17559.10
	Taliadau/Payments	
	Costau Bancio/Banking Charges	£4.25
	Derbyniadau/Received	
	Taliad Praesept/Precept Payment	£5000.00
	Balans Newydd/New Balance	£22554.85

- ii) Taliadau i'w Cymeradwyo/*Payments to be Approve*
 - i) Graham Jones – Cyfrifiadurol/*Computer Maintenance* £690.00
 - ii) Bois y Mowo - £90.00
 - iii) Cyflog Clerc/*Clerk Salary* £780.00

Cymeradwyd y tri thaliad uchod yn unfrydol
All three payments approved unanimously

8 Cynllunio/Planning

- i) A250749 Pencwm, Sarnau
 Mynegwyd cryn bryder a gwrthwynebiad i'r cais hwn. Mae'n eiddo hanesyddol a rhestredig, wedi'i gynllunio gan frawd Clough Williams Elis, Portmeirion. A ydy'r cais yn gydnaws â statws rhestredig yr adeilad? A fydd nodweddion pensaernïol yr adeilad yn cael eu gwarchod? Cytunwyd i gyfeirio'r sylwadau hyn at Adran Gynllunio'r Cyngor Sir.
Numerous objections and opposition were raised to this application. It's a listed historical property built by Clough Williams Elis's brother. Is this application compatible with the property's listed status? Will the property's architectural features be preserved? It was agreed to refer these concerns to the County's Planning Department.

9 Gohebiaeth/Correspondence

- i) Ymateb Yr Asiantaeth Ffyrdd/*Roads Agency Response*
 Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth yr asiantaeth uchod yn nodi eu blaenoriaethau. Dywedwyd eu bod yn aros i dderbyn adroddiadau swyddogol y gwasanaethau diogelwch cyn blaenoriaethu pa ffyrdd i'w dewis ar gyfer sylw pellach.
Correspondence was received from this agency regarding their priorities. It was stated that they were waiting for official reports in order to prioritise which roads to select for further attention.
- ii) Cysgodfannau Bysiau y Plwyf/*Parish Bus Shelter*
 Mewn ymateb i gais gan Gyngor Ceredigion am fanylion ynghylch perchenogaeth y cysgodfannau hyn cysylltodd y Clerc ag Un Llais Cymru. Cyngor y corff hwnnw oedd gofyn a oeddem wedi gwneud gwaith cynnal a chadw arnynt yn y gorffennol ac edrych ar gofrestr eiddo'r Cyngor hwn. Ar sail hyn dywedwyd nad oeddem wedi gwneud gwaith arnynt yn y gorffennol, ac nad oes cyfeiriad atynt ar ein cofrestr eiddo. Felly, cadarnhawyd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned. Cytunodd y Clerc i ohebu gyda'r Cyngor Sir.
In response to a request from Ceredigion Council regarding the ownership of these bus shelters the Clerk contacted One Voice Wales. Its advice was to ask whether we had undertaken any maintenance work on these in the past and

advise us to study our property register. Based upon this, it was agreed that we hadn't undertaken any maintenance work and that there was no reference to them on our property register. Therefore, it was confirmed that they aren't our responsibility. The Clerk agreed to correspond with Ceredigion Council.

10 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

i) **Glanhau Cwteri/Cleaning Gutters**

Cafwyd ceisiadau am lanhau cwteri mewn gwahanol fannau gan yr aelodau yn dilyn y glaw mawr yn ddiweddar. Cais Teifi oedd yr angen am lanhau'r cwteri ar hyd yr heol heibio Allt y Cordde tuag at Lynarthen. Man arall oedd yn pryderu'r aelodau oedd y tueddiad i ddŵr Gronni gerllaw'r gyffordd yn Sarnau ger Sarnau Park. Cytunodd y Clerc i gysylltu gyda gwasanaeth Clic Cyngor Ceredigion.

Many requests were received for the need to clean road guttering following the recent rain. Teifi raised the need to clean the guttering along the road past Allt y Cordde towards Glynarthen. Another location which raised concerns was nearby Sarnau Park in Sarnau. The Clerk agreed to correspond with the Clic service.

11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Rhagfyr 2ail 2025 am 7.30 y.h

The next meeting will be held on Tuesday, December 2nd 2025 at 7.30 p.m